

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470
(CYLCHFAN CORYTON, CAERDYDD I
GYLCHFAN CEFN COED, MERTHYR
TUDFUL) (TERFYNAU CYFLYMDER DROS
DRO) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, rhwng Coryton, Caerdydd a Cefn Coed, Merthyr Tudful.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder o 30 mya, 40 mya a/neu 50 mya dros dro ar y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o ganolbwynt Cylchfan Coryton, Caerdydd i ganolbwynt Cylchfan Cefn Coed, Merthyr Tudful, gan gynnwys yr holl ffyrdd ymuno ac ymadael rhwng y lleoliadau hyn. Bydd y terfynau cyflymder dros dro yn gymwys ar ddarnau penodol o'r gefnffordd, o fewn y darn cyfan a ddisgrifir uchod, dim ond pan fydd angen gwneud gwaith mewn safle penodol.

Daw'r Gorchymyn i rym am 06:00 o'r gloch ar 1 Ionawr 2024. Disgwylir y bydd y cyfyngiadau dros dro yn weithredol, fel sy'n ofynnol a phan fydd arwyddion traffig yn eu dangos, am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A470 TRUNK ROAD (CORYTON
ROUNDAABOUT, CARDIFF TO CEFN COED
ROUNDAABOUT, MERTHYR TYDFIL)
(TEMPORARY SPEED LIMITS) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road between Coryton, Cardiff and Cefn Coed, Merthyr Tydfil.

The effect of the Order is to impose temporary 30 mph, 40 mph and/or 50 mph speed limits on the length of the A470 trunk road that extends from the centre-point of Coryton Roundabout, Cardiff to the centre-point of Cefn Coed Roundabout, Merthyr Tydfil, including all exit and entry slip roads between these locations. The temporary speed limits will apply on specified lengths of the trunk road, within the overall length described above, only when work is needed at a particular site.

The Order comes into force at 06:00 hours on 1 January 2024. The temporary restrictions are expected to operate, as required and when indicated by traffic signs, for a maximum duration of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government